



Adroddiad Rhanbarthol Gogledd Cymru 2022

Rhoi anghenion cancer
ein rhanbarth yn gyntaf



Crynodeb gweithredol

Dros yr wyth degawd ers ein sefydlu, mae North West Cancer Research wedi bod yn ariannu ymchwil a strategaethau yn annibynnol gyda'r bwriad o ddeall achosion cancer a chefnogi'r rhai sy'n byw gyda neu wedi bod â chanser yng Ngogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru.

Mae hirhoedledd ein gwaith yn y rhanbarthau hyn yn golygu ein bod wedi datblygu dealltwriaeth gain o'r materion cancer sy'n bodoli eisoes. Mae'r lefel hon o ymwybyddiaeth yn hanfodol, gan na ellir mynd i'r afael â chanser yn effeithiol heb ddull lleol iawn sy'n deall natur amlweddol, cymhleth ac esblygol yr heriau wrth law.

Nid oes unrhyw ddau bentref, ddwy dref neu ddwy ddinas yn union fel ei gilydd, ac felly ni allwn ddelio â chanser o amgylch y wlad yn union yr un modd ychwaith. Er mwyn galluogi systemau gofal lleol i weithredu mesurau teilwredig sy'n adlewyrchu'r realiti-ar-y-ddaear, rydym wedi buddsoddi dros £45 miliwn ers 2000 mewn prosiectau ymchwil achub bywyd yn ogystal ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth ataliol sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cancer.

Mae'r prosiectau hyn yn rhychwantu ystod eang o weithgareddau, gan gwmpasu popeth o astudiaethau labordy uwch i raglenni addysg ac allgymorth wedi'u targedu. Thema sylfaenol sy'n cysylltu'r holl waith hwn yw darganfod pam fod cancer yn afiechyd mwy cyffredin yng ngogledd Cymru o'i gymharu â gweddill y wlad.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn, sydd bellach yn ei drydedd flwyddyn, yn chwarae rhan bwysig yn hyn, gan ei fod yn paentio darlun aml-haenog o dirwedd y cancer ar draws y chwe sir yng Ngogledd Cymru. Yn benodol,

mae'n dangos sawl tueddiad tymor hir allweddol sy'n amlygu maint yr her yn ogystal â'r gwir angen am ymyriadau lefel gymunedol.

Wrth ei baratoi, archwiliom y wybodaeth sydd ar gael ar ganser yng Ngogledd Cymru a'i ddadansoddi i lefel sirol, gan gynnwys Conwy, Gwynedd, Sir y Fflint, Wrecsam, Ynys Môn a Sir Ddinbych. Rhoddodd hyn gipolwg manwl i ni ar sut mae'r clefyd hwn yn effeithio ar ein cymunedau a pha amodau penodol sy'n rhoi'r straen fwyaf ar bobl Gogledd Cymru yn ogystal â'i seilwaith gofal iechyd.

Yn ganolog i'r dadansoddiad hwn mae'r troshaenu pwyntiau data lluosog, gan gynnwys gwybodaeth economaidd-gymdeithasol gyda nifer o achosion a chyfanswm cyfraddau marwolaeth cancer, i nodi cysylltiadau na fydd efallai'n amlwg ar unwaith. Mae hyn yn creu darlun crwn o dueddiadau cancer allweddol ac yn dangos lle mae anghenion penodol.

Yn anffodus, rydym yn gweld mwy o barhad na newid yn ystod ein hadroddiadau blynyddol, gyda chyfanswm



y marwolaethau o ganser yn aros yn ddigynfnewid i raddau helaeth. Rhwng 2020 a 2021 gwelwyd gostyngiad bychan yn nifer y marwolaethau o ganser yng Ngogledd Cymru o 283.95 i 272.9 fesul 100,000 o bobl.

Mae maint y broblem yn cael ei amlygu ymhellach gan y ffaith bod trigolion Gogledd Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru yn parhau i fod 25% yn fwy tebygol o gael diagnosis o ganser nag yng ngweddill y DU. Tanlinellir hyn gan y ffaith fod Gogledd Cymru yn arddangos cyfraddau achosion uwch ar gyfer 22 o'r 37 grŵp cancer y cofnodir data ar eu cyfer gan y GIG. Yn ogystal, roedd cyfanswm y marwolaethau cancer safonedig yn ôl oedran hyd at 15% yn uwch ar gyfer rhai mathau o ganser yn y chwe sir ogleddol o'i gymharu â'r meincnod cenedlaethol.

Adroddiad eleni yw'r cyntaf i allu gosod y canfyddiadau hyn yng nghyd-destun byd wedi'r cyfnod clo lle gwelwn lawer o'r anghydraddoldebau a oedd yn bodoli cyn y pandemig yn dal i fod yn gwbl amlwg yn y gymdeithas sydd ohoni.

Mae'r gwreiddio hwn o anghydraddoldebau yn bwysig, gan fod cydberthyniad clir rhwng difreintedd a chyfraddau cancer uwch yn ein hymchwil. Gallwn weld hyn mewn ardaloedd fel Gwynedd, sef yr ail sir fwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru a lle mae rhai mathau o ganser yn bresennol ar raddfa sylweddol uwch. Mae hyn yn arbennig o wir am ganser y brostad, lle mae Gwynedd yn arddangos cyfradd achosion 34% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae Wrecsam – sydd yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig – yn cofnodi llai o achosion o ganser y brostad nag a fyddai i'w ddisgwyl o ystyried y data cenedlaethol.

Mae'r rôl y mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn ei chwarae mewn disgwyliadau iechyd ardal yn cael ei thanlinellu ymhellach gan ddata sy'n dangos mai canserau 'sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw' sy'n dangos y gwahaniaethau rhanbarthol mwyaf brawychus. Mae cyfradd cancer yr oesoffagws er enghraifft, a all ddeillio o ysmegu, yfed neu ordewdra, 37% yn uwch yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â gweddill y wlad.



Mae'r nifer achosion brawychus o uchel hwn yn peri baich sylweddol i rwydwaith gofal iechyd y rhanbarth nid yn unig oherwydd bod y niferoedd mor uchel ond hefyd am ei fod yn fath o ganser sy'n hynod heriol i'w drin.

Prif fater arall a ddatgelwyd yn yr ymchwil hon yw bod achosion o rai canserau sy'n benodol i fenywod yn uwch yng ngogledd Cymru nag yng ngweddill y wlad. Mae hyn yn wir am ganser ceg y groth, sydd â chyfradd achosion sydd 43% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae cancer y groth hefyd yn effeithio ar gymunedau yn y Gogledd ar raddfa aciwt, gan ei fod 12% yn fwy cyffredin nag yng ngweddill Cymru. Mae cancer yr ofari a'r tiwb Ffalopaidd yn bresennol ar gyfraddau uwch na'r cyfartaledd mewn pump allan o'r chwe sir yng ngogledd Cymru, a llynedd fe achosodd yr afiechyd hwn 9% yn fwy o farwolaethau ledled y rhanbarth na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Wrth i ni symud allan o'r pandemig, mae'r gwir angen i ddatrys anghydraddoldebau iechyd yn golygu bod iechyd bellach yn ffocws allweddol yn agenda Codi'r Gwastad llywodraeth y Deyrnas Unedig a ryddhawyd yn

gynnar yn 2022. Un o '12 Cenhadaeth i Godi'r Gwastad yn y DU' craidd y papur gwyn oedd lleihau'r Disgwyliad Oes Iach (DOI) rhwng ardaloedd lleol erbyn 2030 a chynyddu'r DOI bum mlynedd erbyn 2035.

Gyda chyfraddau marwolaeth cancer yn sefydlogi yn hytrach na gostwng yng Ngogledd Cymru, mae'n amlwg ein bod ni'n wynebu problem hir dymor a bod cyrraedd nod y llywodraeth yn mynd i olygu buddsoddiad sylweddol sydd wedi ei dargedu at ddeall y problemau – a'r atebion – yn lleol.

Dylai atal ac ymwybyddiaeth fod yn arwyddeiriau allweddol ar gyfer y buddsoddiad hwn, gan y bydd cynyddu'r ddealltwriaeth gyffredinol ledled ein cymunedau yn helpu Gogledd Cymru yn sylweddol i ddod â'i gyfraddau cancer i lawr i'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dyma pam rydym yn gweithio'n galed i weithredu prosiectau allgymorth ac i ledaenu gwybodaeth ar lawr gwlad. Mae ein presenoldeb yng nghymunedau'r rhanbarth a'n gwaith ar ymchwil fel hyn yn dweud wrthym fod creu dyfodol di-ganser yn cymryd mwy nag ymchwilwyr mewn labordai a meddygon mewn ysbytai. Bydd angen i bob tref a sir sylweddoli beth yw ei phryderon penodol, a'u grymuso i gymryd rheolaeth o'u hiechyd eu hunain.

Alastair Richards

Alastair Richards,

Prif Swyddog Gweithredol North West Cancer Research

Trosolwg Ffynhonnell Data:

Fe asesasom ni'r 37 cancer allweddol ledled Cymru y mae data'r GIG ar gael ar eu cyfer. Cafwyd data poblogaeth, cyflogaeth, crefydd y cartref ac ethnigrwydd gan Swyddfa Ystadegau Gwladol y DU drwy Nomis (www.nomisweb.co.uk). Cymerwyd y ddau olaf o ffurflenni Cyfrifiad 2011. Cafwyd data ar gyfer cyfraddau cancer (achosion/cyffredinolrwydd) gan y Gwasanaeth Cofrestru a Dadansoddi Cancer Cenedlaethol (www.ncin.org.uk). Daeth data ar gyfanswm marwolaethau cancer wedi'i safoni yn ôl oedran o adroddiad Prif Achosion Marwolaethau 2020 y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

GOGLEDD CYMRU

Trosolwg Rhanbarthol



Mae canlyniadau iechyd pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru yn wahanol iawn i'r rhai yng ngweddill y wlad, gyda'r rhanbarth yn gorfynegeio ar gyfanswm yr achosion cancer a gofnodwyd o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Gellir gweld heriau iechyd penodol oherwydd bod 22 o'r 36 cancer a arolygwyd yn uwch na'r gyfradd genedlaethol. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae Gogledd Cymru hefyd wedi cofnodi cyfradd marwolaethau cyfanswm uwch cancer na'r cyfartaledd Cymreig. Golyga hyn bod pobl sy'n byw yng nghymunedau'r rhanbarth yn wynebu tebygolrwydd uwch y byddant yn datblygu ac yn marw o ganser na'r rheiny sy'n byw yng ngweddill y wlad.

Y tri chanser mwyaf cyffredin a gofnodwyd ar draws y rhanbarth yw cancer y brostad, y fron, a'r ysgyfaint. Mae'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru hefyd yn cofnodi cyfraddau achosion uchel o ganser y coluddyn a'r rhefr, y coluddyn a'r groth.

Y tri math o ganser oedd yn gyfrifol am y cyfanswm mwyaf o farwolaethau yn 2021 oedd: breuant, broncws a'r ysgyfaint; ac yna coluddyn, crwm, rectwm ac anws; a lymffoid, gwaedfagol a meinwe cysylltiedig. Mae cyfanswm marwolaethau rhai o'r mathau mwyaf heriol o ganser a arolygwyd, gan gynnwys y fron, y pancreas a'r ymennydd, wedi parhau'n uwch na'r cyfartaledd ledled Cymru am flynyddoedd yn olynol.

Anghydraddoldeb rhanbarthol

Mae canlyniadau iechyd yn aml yn cael eu dylanwadu gan lefelau incwm rhanbarthol a maint y difreintedd. Ar gyfartaledd, mae cymunedau yng Ngogledd Cymru'n wynebu lefelau uwch o anghydraddoldeb na mewn rhannau eraill o'r wlad.

Mae'r data a gasglwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn tynnu sylw at y ffaith bod ardaloedd yng Ngogledd Cymru yn profi lefelau difreintedd sy'n hyd at 25% yn uwch na mwyafrif y wlad. Yn aml, mae pocedi o ddifreintedd sylweddol yn bodoli'n yn agos iawn i ardaloedd sy'n gymharol gefnog – gyda chymunedau yn Sir y Fflint a Gwynedd yn cofnodi lefelau uchel o ddifreintedd incwm er eu bod yn agos at ardaloedd incwm cymharol uchel yn Sir Ddinbych.

Mae'r broses o or-osod data incwm gyda chyfraddau cancer yn creu darlun cymysg ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhanbarth cyfan yn arddangos lefelau uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cyfraddau cancer a difreintedd – 7% ac 8% yn uwch na'r cyfartaledd Cymreig yn ôl eu trefn. Ond mae cyfraddau cancer ar draws y rhanbarth yn amrywio'n sylweddol, gan fynd mor uchel â 21% yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghonwy at gyfradd sy'n cyd-fynd yn union â'r wlad ehangach yn Sir y Fflint. Yn ddiddorol iawn, tra bo Sir y Fflint yn cofnodi'r lefelau difreintedd gwaethaf ymhlith y chwe sir a arolygwyd, mae'r ardal fwyaf cefnog yng Ngogledd Cymru, Sir Ddinbych, fwy neu lai yng nghanol yr eithafion hyn gyda chyfradd achosion sydd 14% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae ychydig o dan draean (29%) o'r boblogaeth yng Ngogledd Cymru wedi'u cyflogi fel gweithwyr arferol neu lafurwyr, tra bod nifer tebyg (28%) â galwedigaethau rheolaethol, gweinyddol neu broffesiynol. Mae myfyrwyr yn cynrychioli 8% o'r boblogaeth, tra bod 5% o bobl sy'n byw yn y rhanbarth yn ddi-waith tymor hir neu erioed wedi gweithio.

Mae'r dadansoddiad rhyw yng Ngogledd Cymru yn cyd-fynd â'r boblogaeth genedlaethol, gyda dynion yn 49% a menywod yn 51% o'r boblogaeth.

Gall demograffeg oedran poblogaeth chwarae rhan sylweddol yn amllder a math y canserau a brofir gan gymunedau. Yng Ngogledd Cymru, mae bron i ddwy ran o dair (63%) o'r boblogaeth yn cynnwys pobl o dan 54 oed, tra bod y rhai dros 65 oed yn bron i chwarter (24%) o'r boblogaeth. Mae hyn yn debyg iawn i weddill Cymru, lle mae ychydig dros ddwy ran o dair (67%) o'r boblogaeth o dan 54 oed a'r rhai dros 65 oed yn cynrychioli 21% o'r boblogaeth gyfan.

Mae'r data hwn yn dangos bod gan y rhanbarth gyfran helaeth o'r bobl oedranus, gan fod 38% o'r boblogaeth dros 55 oed, a 11% o'r rhain dros 75 oed. Gallai hyn ddynodi cysylltiad achosol â'r cyfraddau uwch o ganser a geir yn yr ymchwil.

Mae cymunedau ar draws Gogledd Cymru sydd â lefelau uwch o drigolion oedranus yn debygol o adrodd cyfraddau uwch o ganserau penodol sy'n effeithio pobl hyn yn bennaf, megis myeloma.

Canserau sy'n effeithio menywod

Mae nifer yr achosion o ganserau sy'n effeithio ar fenywod yn sylweddol uwch yng Ngogledd Cymru o'i gymharu â gweddill y wlad, yn arbennig felly cancer ceg y groth, sydd 43% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Cymunedau yn Sir Ddinbych sydd wedi



“Mae ardaloedd yng Ngogledd Cymru yn profi lefelau difreintedd sy'n hyd at 25% yn uwch na mwyafrif y wlad.”

eu heffeithio fwyaf, gyda chyfraddau cancer ceg y groth a gofnodwyd dros ddwbl y cyfartaledd cenedlaethol. Mae Gwynedd, Wrecsam, Sir y Fflint ac Ynys Môn i gyd yn cofnodi'r cyfraddau rhwng 33% a 41% yn uwch na gweddill Cymru ar gyfer y clefyd hwn.

Mae menywod yng ngogledd Cymru hefyd yn profi cyfraddau uwch o ganser y groth o'i gymharu â gweddill Cymru, gyda'r rhanbarth yn gor-fynegeo 12% ar gyfer y math hwn o ganser. Gwynedd gofnododd y gyfradd achosion uchaf o'r clefyd hwn, sef 60% yn uwch na'r meincnod cenedlaethol. Roedd Ynys Môn a Sir y Fflint hefyd â chyfraddau uwch na'r cyfartaledd, sef 13% a 39% yn ôl eu trefn.

Ar draws y rhanbarth, mae cyfraddau cancer yr ofari a'r tiwb Ffalopaidd 16% yn uwch na'r rhai a gofnodwyd yng ngweddill Cymru. Y llynedd, arweiniodd hyn at gyfanswm marwolaethau o'r math yma o ganser 9% yn uwch na'r ystadegau cenedlaethol. Profodd pob sir yng ngogledd Cymru, ar wahân i Sir Ddinbych, gyfraddau uwch o ganser yr ofari a'r tiwb Ffalopaidd na gweddill y wlad. Cyfraddau Sir y Fflint ar gyfer y cancer hwn oedd y rhai uchaf, sef 38% yn uwch na'r canolrif Cymreig. Dilynwyd hyn gan Wynedd ar 33%, ynys Môn ar 29%, Conwy ar 11%, a Wrecsam ar 5% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Canserau sy'n effeithio dynion

Mae gogledd Cymru'n cofnodi cyfraddau achosion uwch na'r cyfartaledd ar gyfer nifer o ganserau sy'n benodol i ddynion o'i gymharu â gweddill y wlad.

Mae cancer y brostad yn her allweddol i seilwaith iechyd y rhanbarth, gyda'r cyfraddau 15% yn uwch yng Ngogledd Cymru nag yn y wlad gyfan.

O'r holl farwolaethau drwy ganser yng Ngogledd Cymru, y clefyd hwn sy'n gyfrifol am bumed o'r marwolaethau, sef 19.31 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl.

Cofnododd pump o'r chwe sir a holwyd gyfraddau achosion ar gyfer cancer y brostad dros y cyfartaledd cenedlaethol, gyda chymunedau yng Ngwynedd yn nodi baich uchaf yr afiechyd hwn, gyda chyfradd achosion 34% yn uwch na'r meincnod cenedlaethol. Roedd y



cyfraddau achosion yn Ynys Môn a Chonwy ill dau yn llawer uwch na'r cyfartaledd Cymreig, gyda'r clefyd hwn 19% a 18% yn fwy cyffredin yn y siroedd hyn yn ôl eu trefn. Yn ogystal, cofnododd Sir y Fflint gyfradd achosion 15% yn uwch ar gyfer cancer y brostad, a nododd Sir Ddinbych gyfradd 10% yn uwch.

Mae cyfradd cancer y ceilliau ar gyfer dynion ar draws Gogledd Cymru hefyd yn uwch na'r cyfartaledd ac yn 22% fwy cyffredin yng ngogledd Cymru nag yng ngweddill y wlad. Mae tair sir yn y rhanbarth yn dioddef o gyfraddau achosion sy'n llawer uwch na'r disgwyliadau, gyda nifer yr achosion o'r clefyd hwn ym Môn yn arbennig o uchel, sef 87% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae nifer yr achosion o ganser y ceilliau yn Sir y Fflint a Wrecsam hefyd yn 69% a 66% yn uwch na'r cyfartaledd yn ôl eu trefn.

Er nad yn gyfyngedig i ddynion, mae dynion yn fwy tebygol o gael diagnosis o ganser y pen a'r gwddf na merched. Mae'r ffaith ei fod yn un o ddeg cancer mwyaf cyffredin y rhanbarth, gyda 24.08 o achosion fesul 100,000 o bobl, felly yn peri pryder ar gyfer gofal iechyd dynion yng Ngogledd Cymru.

Prif heriau ar gyfer gogledd Cymru:

Mae cymunedau yng Ngogledd Cymru'n profi lefelau uchel iawn o ganser yr oesoffagws. Yn gyffredinol mae niferoedd achosion y clefyd hwn 37% yn uwch na gweddill Cymru, gyda rhai siroedd yn benodol yn

dioddef o'r math yma o ganser ar raddfa sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o wir am Gonwy, sydd â chyfradd achosion sydd 201% yn uwch a chyfanswm marwolaethau sydd 14% yn uwch o gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Yn Sir Ddinbych, mae'r gyfradd cancer yr oesoffagws 67% yn uwch na'r gyfradd gyfartalog tra bod Ynys Môn, Sir y Fflint a Gwynedd i gyd hefyd â chyfraddau uwch o ganser yr oesoffagws, sef 19%, 16% a 12% yn ôl eu trefn. Tra'n is, mae Wrecsam yn yr un modd â chyfradd sydd 7% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer achosion o ganser yr oesoffagws.

Canser y fron yw'r ail fath mwyaf cyffredin o ganser yng ngogledd Cymru ac mae'n her allweddol i seilwaith gofal iechyd y rhanbarth. Mae cyfraddau achosion a chyfanswm cyfraddau marwolaeth cancer yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar gyfer y clefyd hwn, sef y pedwerydd math mwyaf angheuol o ganser yn y rhanbarth.

Roedd cyfraddau achosion o ganser y fron yn uwch na'r cyfartaledd ym mhedair o'r chwe sir a arolygwyd. Mae poblogaeth Sir Ddinbych yn arbennig yn cael eu heffeithio gan y cancer hwn, gyda chyfradd achosion a chyfanswm cyfradd marwolaethau 33% yn uwch na gweddill Cymru. Mae Conwy hefyd yn profi lefelau uchel iawn o ganser y fron, gyda chyfraddau achosion 32% yn uwch na'r meincnod cenedlaethol. Yn yr un modd, mae cyfradd achosion cancer y fron yn Wrecsam 22% yn uwch na chyfradd Cymreig tra bod y cyfanswm cyfradd marwolaethau ar gyfer y clefyd hwn hefyd 10% yn uwch na'r canolrif cenedlaethol.

Mae canserau'r stumog a'r pancreas yn her allweddol i gymunedau ar draws Gogledd Cymru. Mae cyfraddau achosion rhanbarthol ar gyfer y clefydau hyn rhwng 13% a 15% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol tra bod cyfanswm cyfradd marwolaethau o ganser y pancreas yng Ngogledd Cymru 15% yn uwch nag yng ngweddill y wlad.

Roedd effaith benodol y canserau hyn yn amrywio'n eithaf eang ar draws y siroedd a arolygwyd. Roedd lefelau achosion cancer y stumog a'r pancreas yn uchel yn Ynys Môn, er enghraifft, yn 51% a 47% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yn ôl eu trefn. Yn yr un modd, Conwy oedd â'r nifer uchaf o achosion o

“Mae pob sir yng ngogledd Cymru â chyfradd achosion uwch na'r cyfartaledd ar gyfer cancer yr oesoffagws, gyda'r gyfradd yng Nghonwy ddwbl o'i gymharu â gweddill y wlad.”



ganser y stumog, sef 61% yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Wrth edrych ar gyfanswm cyfraddau marwolaeth, roedd cyfraddau ar gyfer cancer y pancreas yn Ynys Môn a Gwynedd 32% a 23% yn uwch na'r cyfartaledd, tra bod cyfraddau Gwynedd a Sir y Fflint ar gyfer cancer y stumog 34% a 26% yn uwch. O gymharu, Wrecsam oedd â'r gyfradd isaf ar gyfer cancer y stumog, gyda 28% yn llai o achosion na'r cyfartaledd Cymreig.

Mae'r data a ddadansoddwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn datgelu bod gan Ogledd Cymru dirwedd ganser diffiniedig sy'n cyflwyno heriau unigryw a lleol iawn. Mae'n amlwg bod y rhanbarth wedi'i effeithio ar lefel ranbarthol a sirol gan ganserau penodol ar raddfa na welwyd mewn rhannau eraill o'r wlad. Mae'r amrywiannau allweddol hyn yng nghymunedau Gogledd Cymru yn golygu bod rhwydwaith gofal iechyd yr ardal yn wynebu nifer o feichiau penodol.

GOGLEDD CYMRU 10 cancer uchaf yn ôl cyfanswm y marwolaethau *

1. Tracea, broncws ac ysgyfaint
2. Coluddyn, crwm, rectwm ac anws
3. Lymffoid, gwaedfagol a meinwe cysylltiedig
4. Bron
5. Prostad
6. Pancreas
7. Oesoffagws
8. Pledren
9. Iau
10. Ymennydd

* Mae'r rhestr yn seiliedig ar gyfanswm marwolaethau cancer safonedig yn ôl oedran yr oedd data ar gael ar ei gyfer

Dangosir natur ymwreiddiedig y broblem hon gan y ffaith bod bron pob un o'r mynegeion a ddefnyddir i feincodi cyfraddau achosion cancer a chyfanswm y marwolaethau yn statig i raddau helaeth ar draws sawl blwyddyn o gasglu data. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen brys am ymyriadau brys sail-tystiolaeth ar lefel leol ar draws pob un o chwe sir gogledd Cymru.

CANSER Y PEN A'R GWDDF: Ein gwaith

Dangoswyd bod triniaethau imiwnotherapi sy'n harneisio system imiwnedd y corff i ddinistrio celloedd cancer yn darparu manteision sy'n ymestyn bywyd mewn achosion cancer metastatig pen a gwddf. Fodd bynnag, mae cyfran y cleifion sy'n ymateb yn isel ac nid yw clinigwyr yn gallu rhagweld pa gleifion fydd yn elwa neu a allai ddioddef sgil-effeithiau heb fawr o effaith ar eu cancer.

Er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd o lwyddiant, bydd prosiect newydd yn asesu a all sganiau delweddu cyseiniant magnetig (MRI) penodol ganfod effeithiau cadarnhaol cyffur imiwnotherapi o'r enw nivolumab cyn i gleifion gael llawdriniaeth.

Er y gall sganiau MRI arferol ddarparu gwybodaeth am faint tiwmorau a lledaeniad posib, cyfyng yw'r wybodaeth am fioleg tiwmorau. Trwy ddefnyddio sganiau MRI uwch a gafaelydd cyn ac ar ôl triniaeth nivolumab, mae'n bosibl asesu tystiolaeth o newidiadau yn y tiwmor. Gellir cydberthyn y newidiadau hyn â newidiadau biolegol a geir mewn samplau gwaed a'r cancer ei hun, gan roi darlun llawer llawnach o effeithiolrwydd y driniaeth.

Gallai nodwyr MRI newydd ar gyfer ymateb imiwnotherapi helpu i dargedu triniaethau i'r cleifion hynny sydd fwyaf tebygol o elwa ohonynt. Yn ogystal, gallent osgoi triniaeth ddiangen a sgil effeithiau i'r rhai sy'n annhebygol o ymateb, a llywio treialon clinigol dyfodol i helpu'r rhai sy'n lleiaf tebygol o elwa o'r driniaeth.

ALLGYMORTH ADDYSG: Ein gwaith

Mae Lab Coat Learning yn rhaglen addysgol a luniwyd i ddarparu'r wybodaeth, yr offer a'r mewnwelediadau sydd eu hangen ar bobl ifanc ledled Gogledd Cymru i wneud dewisiadau addysgedig a gwybodus am eu hiechyd.

Mae grymuso plant gyda'r wybodaeth hon nid yn unig yn gwella canlyniadau iechyd ar lefel unigol, mae hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn ardaloedd sydd wedi'u hamddifadu'n gymdeithasol trwy roi'r hyder i gyfranogwyr ddod yn 'hyrwyddwyr iechyd' i'w teuluoedd a'u cymunedau.

Mae Lab Coat Learning yn cyflwyno rhaglen o wersi ac adnoddau trawsgwricwlaidd sy'n cynnwys arbrofion ac ymchwiliadau ymarferol a hwyliog sy'n ategu dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r rhaglen yn cymysgu negeseuon iechyd hanfodol gyda hyrwyddo themâu STEM, gan gwmpasu pynciau megis cydrannau cell, DNA, twf a rhaniad celloedd, pelydrau apoptosis, UVA a UVB, gwybodaeth am ganser, terminoleg a dulliau ymchwil.

Mae pob plentyn yn cael pecyn cartref gyda gwybodaeth y gellir ei rannu gyda theuluoedd a ffrindiau i ysgogi ffyrdd iachach o fyw y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae sesiynau dilynol yn sicrhau bod yr ymddygiadau newydd yn cael eu cynnal a bod y plant yn parhau i gael eu hysgogi i wneud penderfyniadau da ar sail iechyd.

Mae'r rhaglen arloesol yn addas i blant 3-14 oed ac mae'n blaenoriaethu ysgolion a chymunedau anoddach i'w cyrraedd mewn ardaloedd difreintiedig nad ydynt fel rheol yn cymryd sylw o negeseuon iechyd.

“ Mae grymuso plant sydd â gwybodaeth yn gwella canlyniadau iechyd ar lefel unigol a hefyd yn helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd mewn meysydd amddifadedd cymdeithasol. ”





Cysylltwch â ni

E: info@nwcr.org

T: 0151 709 2919

nwcr.org

Elusen Gofrestredig Rhif 519 357